

# Achubwyd – gan stori

“Yna dywedodd Dafydd wrth Nathan, ‘Yr wyf wedi pechu yn erbyn yr Arglwydd.’” (adn.13)

## Beth am ddarlflen 2 Samuel 12:1–14 ac yna myfyrio

Daliwn ati i archwilio’r syniad fod gan bawb angen stori. Mae’n ymddangos bod Duw wedi gosod yr awydd yma yn nefnydd pawb ohonom. Nid dim ond yr awydd i wrando stori chwaith, ond i’w dweud hefyd.

Fe ddadleua’r awdur Thomas Howard – ac fe ddadleua’n llwyddiannus iawn – bod y ddynoliaeth yn rhywogaeth o adroddwyr stori a heb stori buasai ein bywydau’n llawer iawn tlotach. “Yr holl storïau hynny,” meddai, “am fechgyn amddifad sy’n cychwyn ar daith ac yn cofio’n ffyddlon eiriau’r hen gardotes, sy’n ymladd yn erbyn temtasiwn, yn gweld trwy ragrith, ac sy’n gweld erbyn diwedd eu taith nad plentyn amddifad mohonynt o gwbl ond mab i frenin – mae’r holl storïau hynny yn canu clychau yn ein dychymyg, oherwydd hynny, mewn gwirionedd, ydy y stori.” Dywedodd J.R.R. Tolkien, awdur yr epig *The Lord of the Rings* a’r dyn a ysbrydolodd C.S. Lewis ac a roddodd gymaint o syniadau iddo ar gyfer ei storïau ei hun: “Anifail sy’n dweud stori yw dyn ac am y rheswm hwn mae Duw wedi rhoi stori iddo i’w byw.”

Mae’r adran sydd gennym dan sylw heddiw yn sôn sut y bu i Dduw achub Dafydd trwy stori. Mae’n debyg mai dyma’r unig ffordd y gallai fod wedi cael ei achub. Anfonodd Duw y proffwyd Nathan ato gyda stori syml am ddyn cyfoethog oedd â phreiddiau mawr iawn ganddo ond a ddygodd oen oddi wrth un gŵr flawd, ei unig oen, ac a’i lladdodd. Cafodd Dafydd ei gyffwrdd a’i gyffroi gan y stori, ond oherwydd ei fod wedi twyllo ei hun mor drylwyr allai o ddim gweld unrhyw berthnasedd iddo’i hun yn y stori. Cyn i’r stori orffen bron, mae o’n bloeddio’n flin: “Cyn wired â bod yr Arglwydd yn fyw, y mae’r dyn a wnaeth hyn yn haeddu marw!” Yr eiliad nesaf, mae’r proffwyd yn ei herio gyda’r geiriau: “Ti yw’r dyn.” Roedd y celwydd wedi ei amlygu a’r twyll resymu ar ben. Roedd o wedi cael ei ddal – gan stori.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Gen. 41:15–36; Luc 10:25–37

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut achubwyd yr Aifft gan y stori ym mreuddwyd Pharo?
2. Pa chwe gair yw gwir bwrpas stori Iesu?

**Gweddi** O Dad, rwy’n gweddïo na lwyddaf byth i dwyllo fy hunan gymaint nes peidio â gweld perthnasedd i mi yn y gwirioneddau, yr egwyddorion a’r straeon yr wyt ti wedi eu cofnodi er fy lles yn yr Ysgrythur. Helpa fi i fod yn hunanymwybodol, Arglwydd. Yn enw Iesu y gweddïaf. Amen.